Cofleidio'r Dyfodol

Ein Hanghenion hyd at 2020

Archesgobaeth Caerdydd

YMGYRCH CODI ARIAN

Neges yr Archesgob

Annwyl Frodyr a Chwiorydd,

Am dros 150 mlynedd mae Archesgobaeth Caerdydd wedi gwasanaethu a bod yn rhan hanfodol o fywyd y gymuned leol. Ym mlynyddoedd cynnar y mileniwm newydd mae'n rhaid inni wynebu nifer o gwestiynau allweddol sy'n hynod berthnasol i adeiladu a thraddodi ein ffydd i genedlaethau sydd i ddod.

Fel pererinion, rydyn ni'n gorff byw sydd bob amser angen ei newid a'i ddiwygio. Mae'n rhaid inni fuddsoddi mewn strategaeth fugeiliol, datblygu ein haddysg a'n ffurfiant yn y ffydd, a sicrhau gofal iawn dros y clerigwyr sydd gennym, wrth ddal i hyrwyddo galwedigaethau i'r offeiriadaeth ordeiniedig.

Er mwyn codi sylfeini cadarn ar gyfer y dyfodol, rwy'n gwahodd pob offeiriad, aelodau o'r urddau crefyddol a'r lleygwyr i gymryd rhan ganolog yn ein hygyrch **"Cofleidio'r Dyfodol - Ein hanghenion hyd at 2020".**

Er mwyn cyrraedd y nod, bydd rhaid wrth rywfaint o aberth ac ymrwymiad personol o ran amser a galluoedd. Mae pob un ohonon ni wedi ei freintio gyda rhoddion gan yr Ysbryd Glân, i'n galluogi i wneud ein cyfraniad unigryw i genhadaeth yr Eglwys, sef datgan yr Efengyl. Mae'r rhoddion hyn yn derbyn maeth ac yn tyfu trwy ein gweddïau a'n myfyrdodau ni ar yr Ysgrythurau, ac yn arbennig pan ymgasglwn ni ynghyd fel teulu Duw i ddathlu'r Ewcharist yn ein cymunedau plwyfol.

Felly, rwy'n gofyn ichi wneud eich cyfraniad unigryw i'r ymgyrch hon, wrth inni i gyd, clerigwyr, crefyddwyr, a lleygwyr, geisio cyflawni cenhadaeth yr Arglwydd yn adeiladu Teyrnas Dduw yn ne-ddwyrain Cymru a Swydd Henffordd.

Gan sicrhau chi o'm gweddïau a'm bendith ichi i gyd.

Archesgob Caerdydd

Mehefin 2007

Golwg Gyffredinol ar yr Ymgyrch

O ble ydyn ni'n dod?

Yn 1916 y sefydlwyd talaith Caerdydd, yn cynnwys Archesgobaeth Fetropolitanaidd Caerdydd, gyda Mynyw fel esgobaeth swffraganaidd. Adeg ail-sefydlu Hierarchaeth Cymru a Lloegr yn 1850 yr enw ar y dalaith oedd Esgobaeth Casnewydd a Mynyw, ac o 1895 ymlaen fel Esgobaeth Casnewydd. Roedd y cyfnod rhwng 1850 hyd y 1980au yn un o dwf a datblygiad i raddau helaeth oherwydd mewnfudiad sylweddol o Iwerddon ac yn ddiweddarach gan fewnfudwyr o'r Eidal a ffoaduriaid o Bwyl. Ar ôl ailwampio esgobaethau Cymru yn 1987, roedd yna tua phedwar ugain o blwyfi yn yr archesgobaeth gyda 83 offeiriad esgobaethol a 32 o rai mewn urddau yn gweini ynddyn nhw. Ar gyfartaledd, byddai 31,000 yn mynychu Offeren y Sul, ac roedd yna 65 ysgol.

Ble ydyn ni heddiw?

Heddiw fe amcangyfrifir fod yna 144,000 o Gatholigion yn Archesgobaeth Caerdydd a thua 19,000 ar gyfartaledd yn mynychu'r Offeren ar y Sul. O ran daearyddiaeth, mae'r archesgobaeth yn cynnwys Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Swydd Henffordd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen a Bro Morgannwg. Ar hyn o bryd mae yna 67 offeiriad esgobaethol (gan gynnwys 16 sydd wedi ymddeol), 28 offeiriad mewn urddau (sy'n cynnwys 19 yn gwneud gwaith plwyfol), 14 Diacon parhaol, 2 Frawd a 112 Chwaer. Yn effeithiol, mae yna 54 plwyf yn cynnwys 83 Cymuned Ewcharistaidd a 55 Ysgol Gatholig gyda thua 17,000 o ddisgyblion.

Ble ydyn ni'n mynd?

Rhagwelir y bydd nifer y plwyfi, yr offeiriaid a'r Chwiorydd yn parhau i leihau. Mae hyn yn her inni gynnal a datblygu ffydd fywiol a chymunedau cenhadol. Er mwyn ateb yr her bydd rhaid cael twf mewn gweinidogaethau lleyg ac adnoddau proffesiynol i gefnogi'r clerigwyr. Dyna sydd ei angen arnon ni i gyflenwi ein hanghenion hyd at 2020.

Sut fydd yr Ymgyrch yn helpu?

Pwrpas yr Ymgyrch yw ymateb i'r her yma a chofleidio'r dyfodol yn hyderus, ac mewn ffyddlondeb i'n Cenhadaeth. Mae angen cyllid ychwanegol i gynnal yr offeiriaid sydd wedi ymddeol, i hyfforddi a chynnig adnoddau proffesiynol ar gyfer y clerigwyr a'r lleygwyr, a sicrhau y bydd ein Cadeirlan yn addas ar gyfer gofynion yr unfed ganrif ar hugain.

Archesgobaeth Caerdydd

YMGYRCH CODI ARIAN

Ein Nod Cyntaf

Cyllid hirdymor ar gyfer Offeiriaid sydd wedi Ymddeol

Pam fod angen cyllid i gynnal ein hoffeiriad sydd wedi ymddeol neu'n sâl?

Hyd at 2006 doedd yna ddim angen newid y ffordd y caem hyd i gyllid i gynnal ein hoffeiriaid oedd wedi ymddeol neu'n sâl. Bob blwyddyn fe dderbynia'r Archesgobaeth arian ar sail asesiad o incwm pob plwyf i gynnal offeiriaid sâl a rhai wedi ymddeol. Neilltuwyd cyfran o hwnnw bob blwyddyn. Gwaetha'r modd, nid yw'r swm a amcangyfrifwyd yn ddigonol bellach ar gyfer yr anghenion. Gwaetha'r modd, nid yw'r asesiad hwn yn ddigonol ar gyfer ein anghenion bellach.

Dangosodd arolwg yn 2005 nad oedd y gefnogaeth ar gyfer offeiriaid esgobaethol oedd yn sâl neu wedi ymddeol yn ddigon i gyflenwi'r costau go iawn. Mewn ymateb i hyn, cynyddwyd y gefnogaeth ar ddiwedd 2005 ac eto yn 2006. Dim ond nawr y mae oblygiadau hyn yn dechrau amlygu'i hun. Yn ogystal, mae cyfartaledd oedran ein hoffeiriaid yn dal i gynyddu, ac felly ceir cynnydd yn y nifer o offeiriaid sy'n sâl neu wedi ymddeol. Mae wyth o'n hoffeiriaid sy'n dal i weithio'n frwd dros eu saithdeg. Gallai unrhyw un o'r rhain ymddeol ar unrhyw bryd, naill o ddewis neu o orfodaeth.

Beth fydd ein costau yn y dyfodol a sut allwn ni eu talu?

Fe ragwelwyd yn yr adroddiad yn 2005 y byddai cost cynnal ein hoffeiriaid oedd wedi ymddeol yn codi'n raddol ond yn bendant o'r £200,000 y flwyddyn i tua £400,000 erbyn 2012. Mae ein Bwrdd Lles Offeiriaid wedi cadarnhau, er nad oes argyfwng ar hyn o bryd, bod rhai ymateb i'r broblem os ydyn ni am osgoi problemau mawr yn y dyfodol.

Un ateb posib i'r angen yw cynyddu'n raddol yr asesiad plwyfol blynyddol ar gyfer cynnal offeiriaid. Ond mae Ymddiriedolwyr yr Archesgobaeth yn credu y dylen ni geisio cadw'r asesiad ar ei lefel bresennol, a chwilio am ffyrdd eraill o dalu'r costau ychwanegol.

Onid dyna oedd pwrpas y Casgliad Blynyddol Arbennig yn Ionawr 2007?

Roedd y Casgliad Blynyddol Arbennig yn ymateb gwych i'r angen hwn, a bu poblogaeth Gatholig yr Archesgobaeth yn rhyfeddol o hael yn cyfrannu dros £115,000, ymhell tu hwnt ein gobeithion a'n disgwyliadau. Fe lwyddon ni i fuddsoddi holl gyfraniadau'r Casgliad Blynyddol Arbennig hwn yng Nghronfa Ymddeoliad Offeiriaid, gan godi'r arian yno i dros £300,000.

Er hynny, dim ond ateb dros dro yw defnyddio'r Casgliad Blynyddol Arbennig. Er bod y Casgliad eleni wedi cynhyrchu rhywfaint o arian dros ben yn y tymor byr, y ffordd orau i dalu'r costau hirdymor yw sefydlu Cronfa Ymddeoliad sylweddol, a defnyddio'r llog arno yn flynyddol i dalu am les ein hoffeiriaid. Felly, rydyn ni wedi gosod nod dros bum mlynedd i godi'r gronfa hon i dros £5 miliwn.

Ein Hail Nod

Buddsoddiad i'n Strategaeth Fugeiliol

Mae yna gyfrifoldeb ar bob aelod o'r Eglwys yn ne-ddwyrain Cymru a Swydd Henffordd i hyrwyddo cenhadaeth yr Eglwys: y Genhadaeth i draddodi a rhannu'r ffydd Gatholig trwy gyhoeddi'r Efengyl, trwy addoliad, trwy greu cymunedau a thrwy wasanaethu eraill.

Mae'r amgylchiadau yn newid wrth inni fynd ati â'r gwaith. Llai o bobl yn mynychu'r Offeren a llai o offeiriaid. Yn ogystal, rydyn ni'n byw mewn cymdeithas sy'n mynd yn fwyfwy seciwlar. Hyn i gyd yn cynnig her a chyfleoedd newydd inni wrth gynllunio at y dyfodol. Mae'r plwyfi'n cael eu had-drefnu er mwyn cynnal arweiniad a gofal bugeiliol. Yn y blynyddoedd diweddar cyfunwyd bron i ddeg plwyf ar hugain mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.

Rydym yn datblygu ffyrdd newydd o weinidogaethu er mwyn gwasanaethu'r plwyfi. Mewn sawl achos mae'r offeiriad yn gorfod gofalu am ddau neu fwy o blwyfi. Mewn llefydd eraill, ceir timau bugeiliol yn cynnwys offeiriaid, diaconiaid parhaol a chwiorydd crefyddol. Ychwanegwyd at ran y gweinidogaethau lleyg a bydd angen estyn hynny. Mae'r hen fframweithiau'n newid a datblygu i ateb gofynion newydd ac adeiladu sylfaen gadarn ar gyfer twf yr Eglwys.

Mae'r newidiadau hyn yn codi cwestiynau ynghylch y broses o newid a'r medrau sydd eu hangen yn y sefyllfa newydd. Sut ydyn ni'n paratoi ar gyfer newid, a rheoli'r broses? Sut ydyn ni'n gofalu am y plwyfolion yn ystod y newidiadau? Sut ydyn ni i sicrhau parhad a diogelwch? Sut ydyn ni'n sicrhau fod y lleygwyr, Chwiorydd a'r clerigwyr yn derbyn y sgiliau angenrheidiol ac yn datblygu'r rhai sydd ganddyn nhw eisoes? Sut allwn ni ehangu'n rhaglenni addysgiadol a ffurfiannol? Sut ydyn ni'n mynd i gynnal y comisiynau bugeiliol esgobaethol presennol: Bywyd Teuluol, Litwrgi, Undod Cristnogol, Hyrwyddo Galwedigaethau?

Un o'r ffactorau allweddol wrth inni weithredu strategaeth fugeiliol y cyfnod nesaf fydd buddsoddi mewn pobl, yn eu ffurfiant a'u cefnogaeth. Rhyw ddegawd yn ôl fe sefydlwyd Cronfa'r Archesgob Murphy i gynnal hyfforddiant bugeiliol clerigwyr a lleygwyr. Mae gwerth y Gronfa bellach ychydig dros £500,000 ac erbyn Mawrth 2006 roedd dros £180,000 wedi cael ei ddosbarthu mewn grantiau o elw llog y gronfa.

Ond yn y cyfnod hwn o newidiadau mawr, rhaid inni gynyddu'r gronfa ar gyfer cefnogaeth fugeiliol i £2,500,000. Byddai'r incwm mwy o gronfa fwy fel hon yn galluogi'r esgobaeth i gynnig mwy o gefnogaeth i weinidogion lleyg, plwyfolion, crefyddwyr a chlerigwyr o ran hyfforddiant a ffurfiant, ac i gyflogi yn ychwanegol bobl brofiadol a chymwys i gynnal y strategaeth fugeiliol. Felly, nod yr ymgyrch hon yw codi £2 filiwn yn ychwanegol i ymateb i'n gofynion bugeiliol.

Archesgobaeth Caerdydd

YMGYRCH CODI ARIAN

Ein Trydydd Nod

Adfer Ein Cadeirlan

Mae angen datblygiad o natur cwbl wahanol wrth galon ein cymuned Gatholig. Rhaid inni adfer hunaniaeth bensaernïol ein Cadeirlan, er mwyn ei gwneud yn fwy addas ar gyfer dathliadau litwrgïaidd ac yn fwy ar gael i'r cyhoedd.

Codwyd Eglwys Dewi Sant fel prif Eglwys Gatholig Caerdydd yn 1887. Yn 1921 fe'i dyrchafwyd yn Gadeirlan Archesgobaeth Caerdydd a Chadeirlan Fetropolitanaidd Talaith Cymru a Swydd Henffordd. Ym mis Mawrth 1941, distrywiwyd ein cadeirlan gan fomiau a thân a bu raid i'r gynulleidfa addoli yn y neuadd blwyf. Yn 1953, dechreuwyd ar y gwaith o glirio'r safle ar gyfer rhaglen helaeth o ailadeiladu ac yn 1959 fe ail-agorwyd y gadeirlan yn ei ffurf bresennol. Yn y blynyddoedd yn dilyn fe wnaed rhai newidiadau tameidiog i du fewn yr eglwys, a olygodd golledion sylweddol o safbwynt hunaniaeth bensaernïol. Daeth yr amser i wella a newid y lle ar gyfer addoliad a litwrgi cyfoes.

Gellid defnyddio'n cadeirlan ar gyfer ystod llawer helaethach o wasanaethau a digwyddiadau na ellir ei wneud ar hyn o bryd oherwydd cyfyngiadau'r adeilad. Cadeirlan Dewi sant yw'r addoldy mwyaf yng nghanol ailddatblygiadau Canol Dinas Caerdydd, ac felly yn abl i gynnig llecyn addas ar gyfer nifer sylweddol o ddigwyddiadau lleol a chenedlaethol. Yn wir, derbyniwyd nifer dda o geisiadau ar gyfer digwyddiadau o'r fath ond bu raid eu gwrthod, gwaetha'r modd, oherwydd diffygion presennol yr adeilad - dyw'r cyfleusterau toiled ac ymolchi ddim yn ddigonol ar gyfer cynulliadau mawr, a'r system dwymo heb fod yn ddigonol ar gyfer cynulleidfa fawr yn y gaeaf, a does yna ddim toiled i'r anabl na mynediad anabl ar yr ail lawr.

Mae yna ddiddordeb cynyddol unwaith eto mewn cadeirlannau. Mae mwy a mwy yn ymweld ag adeiladau o'r fath, nid i addoli'n unig ond hefyd i ddysgu am eu hanes nhw a'u cymunedau. Hyd yn oed heddiw, daw tua 300 o ymwelwyr i'n cadeirlan bob dydd, heb gyfri'r plwyfolion; rhai yn dod i gael ychydig funudau o dawelwch, rhai i weddïo a rhai yno dim ond i weld yr adeilad.

O ystyried ein cynlluniau cyntaf, rydyn ni'n amcangyfrif y bydd rhaid wrth £3 miliwn i adfer y gadeirlan, i hyrwyddo defnydd helaethach ohoni ac ar gyfer cynnal a chadw. Gobeithiwn dderbyn hyd at £1 miliwn o ffynonellau grantiau, er na ellir gwarantu hyn. Felly, rydym yn troi at y gymuned Gatholig i ofyn am £2 miliwn ar gyfer yr ymgyrch hon i gynnal ail-ddatblygu Cadeirlan Dewi Sant.

Targedau Cyllidol yr Ymgyrch

Nod Ymgyrch yr Archesgobaeth yw codi £8,700,000 i ateb ein gofynion hyd at 2020. Rhoddir pob cyfraniad mewn cronfa arbennig i'w fuddsoddi ar gyfer yr hirdymor. Defnyddir y llog blynyddol i ateb y gofynion mawr a nodwyd eisoes.

Ein Hangen	**Ein Targed**
Cynnal ein Hoffeiriad sydd wedi ymddeol	£4.7 miliwn
Buddsoddi yn ein Strategaeth Fugeiliol	£2.0 miliwn
Adfer ein Cadeirlan	£2.0 miliwn
Cyfanswm y targed	**£8.7 miliwn**

Pa Darged ddylwn i ei gefnogi?

Bydd llwyddiant yr Ymgyrch yn dibynnu ar haelioni holl bobl yr Archesgobaeth. Os gwneir cyfraniad heb nodi pwrpas 'arbennig' gall yr Archesgobaeth sicrhau fod y tair nod yn cael eu cyllido'n briodol. Ond, os mynnwch, gallwch ddewis cefnogi un neu ddau nod yn arbennig trwy roi eich dewis ar y cerdyn cyfrannu.

Archesgobaeth Caerdydd

YMGYRCH CODI ARIAN

Sut ddylwn i gyfrannu?

Trwy Adduned

Bydd y rhan fwyaf ohonon ni yn gwneud adduned dros bum mlynedd. Cyfrannu'n rheolaidd bob mis yw'r ffordd hawsaf i gynnig cymorth a dyna fydd asgwrn cefn yr Ymgyrch. Mae hefyd yn ei gwneud hi'n haws i chi ei fforddio a'i drefnu.

Os gwnewch chi adduned trwy gynllun yn gysylltiedig â'ch cyflog fe allwch gyfrannu'n fwy effeithiol gan y bydd y taliad yn dod allan o enillion cyn eu trethu. Os hoffech chi, gallwch ddefnyddio archeb reolaidd gyda'ch banc i dalu'r swm yn uniongyrchol i ni yn fisol. Ac os ydych yn drethdalwr yn y Deyrnas Gyfunol gall eich cyfraniad fod yn Rhodd Gymorth sy'n golygu y gallwn ni hawlio'r dreth a dalwyd eisoes ar yr y cyfraniad.

Gwneud Rhodd Unigol

Efallai ichi gael lwc yn ddiweddar ac am rannu peth o hyn gydag achos da. Neu efallai fod gennych reswm personol neu o ran eich busnes dros gyfrannu i elusen gofrestredig. Neu efallai eich bod am roi cyfraniad er cof am rywrai annwyl, i ddathlu eu bywyd mewn dull fyddai wedi bod wrth eu bodd. Beth bynnag fo'r rheswm, efallai y dewiswch wneud cyfraniad unigol i'r Ymgyrch, a chaiff hwnnw groeso brwd.

Rhodd mewn Ewyllys

Er nad yw'r rhelyw ohonom am feddwl am farw, mae angau yn ffaith sylfaenol bywyd. Os gwnewch chi ewyllys, fe wyddoch y caiff eich dymuniad ei wireddu. Yn amlwg, rhaid ichi ofalu am anghenion eich teulu a'ch cyfeillion, ond fe allai eich ewyllys hefyd gynorthwyo i gynnal a chryfhau ein cymuned Gatholig. Byddai gadael cymynrodd i'r Ymgyrch yn cael effaith parhaol ac mae'n ffordd dda i sicrhau fod rhan o'ch bywyd yn dal i gynorthwyo eraill ymhell ar ôl i chi farw.

Croesewir rhoddion bach neu fawr. Os ydych eisoes wedi gwneud trefniadau ar gyfer hyn, neu eich bod am wneud hynny, a wnewch chi roi gwybod inni. Fe allwn eich helpu i drefnu'r gymynrodd, a bydd o gymorth i ni i wybod am gefnogaeth y gallwn ddibynnu arno yn y blynyddoedd i ddod. Mae'n gyfle hefyd i ni allu dweud 'Diolch' ichi o waelod calon.

Faint ddylwn i ei gyfrannu?

Yn yr Ymgyrch hon, bydd y rhan fwyaf ohonon ni yn cyfrannu trwy wneud adduned dros gyfnod o bum mlynedd. Wrth gwrs, bydd maint eich cyfraniad yn adlewyrchu'ch modd chi. Ond mae'r achos yn un hanfodol bwysig a'r angen yn fawr. Felly dylai'ch cyfraniad adlewyrchu rhywfaint o aberth ar eich rhan.

Dyma un syniad am sut i benderfynu ar faint eich cyfraniad: cymharwch yr hyn rydych yn ei wario ar fwyd a diod neu'r hyn rydych yn ei wario ar gylchgronau neu adloniant. Wedyn, edrychwch ar y tablau isod i weld yn union beth yr ydych yn ei aberthu wrth asesu'r hyn rydych am ei gyfrannu.

Eich Aberth dyddiol	Eich Aberth wythnosol	60 Taliadau misol	5 Taliadau blynyddol	Eich Cyfanswm Rhodd	Rhodd Cymorth Ychwanegiad 28%*	Budd i'r Ymgyrch
0.27	1.92	8.33	100	**500**	140	**640**
0.55	3.85	16.67	200	**1000**	280	**1280**
1.10	7.69	33.33	400	**2000**	560	**2560**
2.74	19.23	83.33	1000	**5000**	1400	**6400**
5.48	38.456	166.67	2000	**10000**	2800	**12800**
13.70	96.15	416.67	5000	**25000**	7000	**32000**

*Mae'r swm a ddangosir uchod fel ein budd o Rodd Gymorth yn adlewyrchu rheolau'r Comisiynwyr Tollau ac Ecseis E. M. ar gyfer 2007-08 a gallant newid yn y dyfodol.

Archesgobaeth Caerdydd

YMGYRCH CODI ARIAN

Trefniant Ein Hymgyrch

Ni ellir cynnal Ymgyrch mor fawr â hyn heb griw ymroddedig. Ers 2006 fe fuom yn penderfynu sut i drefnu pethau, gan dderbyn arweiniad gan esgobaethau eraill lle cafwyd ymgyrchoedd cyffelyb llwyddiannus. Yn ffodus, mae nifer o'n cyd-Gatholigion yn yr Archesgobaeth wedi gwirfoddoli o'u hamser a'u talentau i hybu'r Ymgyrch.

Dyma sut y trefnwyd pethau:

Llywydd: **Y Gwir Parchedig Peter Smith, Archesgob Caerdydd**

Fel Cadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr yr Archesgobaeth, fe fydd yr archesgob yn bennaf gyfrifol am yr Ymgyrch.

Cadeirydd: **Mr John Reddy (Merthyr Tudful)**

Mae Mr Reddy wedi bod yn aelod o Fwrdd Ymddiriedolwyr yr Archesgobaeth ers deng mlynedd ac wedi gwasanaethau fel Cadeirydd ei Bwyllgor Cyllid. Mae'n enwog ar draws yr archesgobaeth am ei arweiniad cyllidol cadarn. Bu wrthi hefyd ddeng mlynedd yn ôl yn arwain y gwaith o sefydlu Cronfa'r Archesgob Murphy.

Is-gadeiryddion::

Fe wnaeth nifer o Gatholigion amlwg yr archesgobaeth gynnig eu hamser a'u hynni i helpu i drefnu a chynnal yr Ymgyrch hon. Maen nhw'n byw mewn gwahanol rannau o'r archesgobaeth, ac yn medru cynnig persbectif eu hardaloedd i'r Ymgyrch. Wrth gyd-weithio gyda'r Cadeirydd, bydd y tîm yn gallu cymeradwyo popeth ynghylch yr Ymgyrch ac arfarnu'r cynnydd drwy'r cyfnod. Byddan nhw hefyd yn weladwy fel Arweinyddion yr Ymgyrch yn eu hardaloedd ac ar draws yr archesgobaeth.

Arweinwyr Plwyfol:

Mae gan bob plwyf arweinydd Ymgyrch, sy'n gyfrifol am roi unrhyw wybodaeth angenrheidiol i'r plwyfolion ac arwain criw o wirfoddolwyr a fydd yn gofyn am gefnogaeth pob aelod o'r plwyf. Mae'r Arweinwyr hyn hefyd yn gyfrifol am roi gwybod i'r Tîm Arweiniol sut mae'r Ymgyrch yn datblygu yn eu plwyfi.

Gwirfoddolwyr Plwyfol:

Ni all unrhyw Ymgyrch fel hon lwyddo heb fod criw o wirfoddolwyr gweithgar ym mhob plwyf. Bydd y nifer o wirfoddolwyr yn dibynnu ar faint a daearyddiaeth y plwyf, ond bydd pob un yn cyfrannu i'r ymgyrch briodol o gasglu cyfraniadau oddi wrth eu cyd-blwyfolion.

Cysylltu Gyda'r Ymgyrch

Cysylltwch gyda'ch Arweinydd Plwyfol os ydych am fwy o wybodaeth neu unrhyw gymorth.

Am fwy o wybodaeth neu am gopïau ychwanegol cysylltwch â'r:

Canon Robert Reardon
Archesgobaeth Caerdydd
Tŷ'r Archesgob
41-43 Heol y Gadeirlan,
Caerdydd
CF11 9HD

Ffôn: 029 2022 0411
Gwefan: www.rcadc.com
Rhif Elusen: 242380

Archesgobaeth Caerdydd
YMGYRCH CODI ARIAN

Gweddi'r Ymgyrch

Arglwydd, diolchwn iti am ein cynnull ynghyd fel dy Eglwys
i hyrwyddo dy Deyrnas yma ar y ddaear.

Rwyt yn rhoddi inni i gyd bopeth sydd gennym ac yn gweld
popeth sydd eisiau arnom.

Una ni gyda thi a chyda'n gilydd,
a gad i'n hymdrechion lwyddo wrth rannu'n hamser,
a'n hadnoddau a'n galluoedd, er mwyn adeiladu ar
gyfer y dyfodol.

Anfon dy Ysbryd arnom, Arglwydd:
Gan i ti ein bendithio mewn cymaint o ffyrdd, cynorthwya ni i
ddychwelyd y rhoddion hyn gyda chalonnau diolchgar.

Gofynnwn hyn yn enw Iesu, ein Harglwydd a'n Gwaredwr.

Amen.

Dewi Sant,

gweddïa drosom.

Mair, Fam ein Harglwydd
a Mam yr Eglwys,

gweddïa drosom.